

OEDOLION HŶN

Lles

Wrth gyfeirio at lesiant pobl mewn lleoliad gofal preswyl, rydym yn golygu'r canlynol – Mae pobl yn hapus, yn iachus ac yn ddiogel. Mae pobl yn gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael iddynt, ac maen nhw'n derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt, pan fo'i angen, ac yn y ffordd maen nhw'n ei ddymuno. Gwarchodir eu hawliau, mae ganddynt lais, a lle y bo'n ymarferol gallant wneud penderfyniadau am eu bywydau.

Canlyniadau Cefnogi llesiant	Rhai enghreifftiau o'r hyn a olygir gan 'da'	Yr hyn y dylai arolygwyr ddisgwyl ei ganfod lle y dyfarnir bod llesiant yn dda	Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau mae pobl:
Rydw i'n ddiogel ac yn cael fy amddiffyn rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod. Rydw i mor iach ac egniol ac y galla i fod. Rydw i'n gallu mynegi fy marn a safbwyntiau. Rydw i'n teimlo fy mod yn perthyn ac mae gen i berthnasau cadarnhaol a diogel. Gwneir y mwyaf posibl o'm potensial a'm hannibyniaeth. Rydw i'n fodlon/hapus. Rydw i'n gallu gwneud yr hyn sy'n bwysig i mi.	Mae pobl yn ddiogel ac yn cael eu gwarchod rhag niwed neu esgeulustod – ac yn teimlo hyn. Mae pobl yn cael eu hannog i siarad, i fynegi eu hunain, ac, os yw'n angenrheidiol, derbyn cefnogaeth eiriolaeth sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau. Maen nhw'n cael eu trin â pharch ac urddas, ac mae eu hunaniaethau unigol a'u harferion yn cael eu hadnabod a'u gwerthfawrogi. Mae pobl yn datblygu cyfeillgarwch da ac yn magu perthnasau da â'r staff sy'n gofalu amdanynt. Mae pobl yn mwynhau eu hunain ac yn fodlon yn emosiynol, yn gymdeithasol, yn gorfforol ac yn ddeallusol. Mae gan bobl bethau i edrych ymlaen atynt. Mae buddion pennaf pobl yn cael eu deall a'u hyrwyddo. Mae pobl yn gwneud y mwyaf posibl o'u hannibyniaeth trwy gymryd risgiau cadarnhaol.	SOFI Naws: Pobl yn gwenu, datgan mwynhad, bodlon a chyfforddus wrth orffwys ac ymlacio. Ymgysylltu a pherthnasau: Pobl yn cael eu hannog yn gadarnhaol i wneud dewisiadau, yn ymgysylltu â gweithgareddau sy'n rhoi boddhad, ac yn gwneud defnydd cadarnhaol o'r deunydd a'r offer. Mae pobl yn cymryd rhan mewn sgysiau amrywiol gyda chyswllt personol. Rhyngweithio rhwng y staff: Gwrandewir ar gyfathrebu ar lafar ac fel arall, ac mae hoffterau'n cael eu ceisio a'u parchu. Mae pobl yn cael eu hannog ac mae eu cyflawniadau'n cael eu gwerthfawrogi. Mae pobl yn derbyn sicrwydd amserol a chadarnhaol pan fyddant yn flinderus.	- yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod a chamfanteisio. - yn cael eu hannog i gadw'n ffit ac yn dda - yn elwa ar ddeiet a ffordd o fyw iachus - yn cael eu cefnogi i ofalu am eu hunain - yn cael eu hannog a'u cefnogi i wneud dewisiadau a phenderfyniadau - yn cael eu gwrandao amynt ac mae pob ymgais i gyfathrebu'n cael ei werthfawrogi - yn cael eu hannog i siarad a mynegi eu hunain - yn hyderus bod staff yn deall eu hanghenion - yn cael eu hunaniaethau/diwylliannau unigol wedi'u cydnabod a'u gwerthfawrogi - wedi ymgartrefu ac yn gyfforddus â staff, sy'n eu hadnabod yn dda ac yn rhoi gofal cyson a pharhaus iddynt sy'n magu hyder a hunanhyder cadarnhaol

Canlyniadau Ansawdd Gofal a Chymorth h.y. Asesiad, Cynllunio Darparu ac Adolygu	Rhai enghreifftiau o'r hyn a olygir gan 'da'	Yr hyn y dylai arolygwyr ddisgwyl ei ganfod lle dyfarnir bod ansawdd gofal a chymorth yn dda	Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau mae pobl:
Rydw i'n derbyn y gofal iawn, pan mae ei angen arnaf ac mewn ffordd o'm dewis. Rydw i'n rhan o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd. Rydw i'n cael fy nghefnogi i fod mor iach ac egniol ag y galla i. Mae gen i berthnasau da gyda staff. Rydw i'n gallu Rydw i'n cael fy nhrin ag urddas a pharch. Mae fy anghenion a hoffterau unigol yn cael eu deall a'u rhagweld. Rwy'n gallu derbyn gofal yn yr iaith sydd ei	Mae pobl yn cael eu cadw mor ddiogel â phosibl am eu bod yn derbyn gofal rhagweithiol ac ataliol, ac mae amrywiaeth eang eu hanghenion yn cael ei rhagweld. Gwneir cyfeiriadau mewn ffordd amserol i weithwyr proffesiynol gofal iechyd a chymdeithasol pan fod angen newid ar bobl. Mae pobl yn cael eu cefnogi i gael ffrindiau a pherthnasau agos oherwydd mae gan staff yr hyder a'r sgiliau i gefnogi pobl wrth wneud penderfyniadau unigol. Mae pobl yn ymgysylltu'n weithredol wrth wneud penderfyniadau ynghylch y gwasanaeth maent yn ei dderbyn a'r ffordd y maent yn treulio'u hamser. Mae pobl yn teimlo eu bod yn bwysig gan fod staff yn defnyddio amrywiaeth o sgiliau a dulliau cyfathrebu sy'n addas ar gyfer anghenion unigol i sicrhau bod pobl yn cael eu gwrandio arnynt a'u siarad â nhw mewn ffordd y maent yn deall. Mae pobl yn cael eu trin â charedigrwydd a thrugaredd yn ystod eu gofal o ddydd i ddydd.	Naws: Staff sy'n wyliadwrus ac ymatebol i hwyliau newidiol pobl ac sy'n meddu ar y sgiliau a'r hyder i ymateb yn gadarnhaol. Mae ysbryd pobl yn cael ei godi gan ryngweithio medrus staff. Ymgysylltu a pherthnasau: Staff sy'n gwyllo i weld a yw pobl yn cael eu difyrru ac sy'n rhagweithiol wrth feithrin sylw pobl, ymysg ei gilydd a gyda gweithgareddau ac ati. Mae cyfarwydd-deb naturiol rhwng y staff a'r bobl sy'n byw yn y cartref. Faint o ymgysylltiad sydd â'r staff yn ystod y cyfnod Rhyngweithio rhwng staff: Cyfradd uchel o ryngweithio cadarnhaol. Cyfradd isel o ryngweithio niwtral/negyddol. Staff yn dangos eu bod yn gwrandio ar gyfathrebu ar lafar ac fel arall, yn cymryd diddordeb yn anghenion unigol pobl, yn ymgysylltu'n fedrus, ac	- Cynnal cyn-asesiadau i sicrhau bod y lleoliad a gwasanaethau arbenigol lleol yn gallu diwallu eu hanghenion unigol - yn cael cynlluniau gofal sy'n dechrau cyn symud mewn i'r cartref i leihau gofid a phryder wrth gael mynediad ac yn ystod y broses bontio - yn cael eu trin ag urddas a pharch - yn rhan o wneud penderfyniadau am eu gofal - yn derbyn gofal amserol, priodol sy'n canolbwyntio ar y person - yn cael adolygiadau rheolaidd sy'n cael eu cefnogi, eu gweithredu a'u cyfathrebu i bobl berthnasol sy'n rhan o'u gofal/bywydau - yn cael cysylltiad perthnasau a gofalmwr mewn asesiadau ac adolygiadau fel sy'n briodol Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y

hangen arnaf.	Mae pobl yn cael cynnig cynhesrwydd, anogaeth a chymorth emosiynol. Mae pobl yn mwynhau prydau bwyd a diodydd iachus ac addas. Caiff amseroedd prydau bwyd eu trefnu'n briodol, ac maen nhw'n hyblyg er mwyn bodloni anghenion pobl. Mae pobl yn cael eu cefnogi gan staff sy'n deall ac sydd â dealltwriaeth ymarferol dda o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a gofynion allweddol y Ddeddf Galluedd Meddwl. Maent yn gweithredu'r rhain yn effeithiol a sicrhau bod hawliau dynol a chyfreithiol pobl yn cael eu parchu.	yn darparu cynhesrwydd ac anogaeth. Rhyngweithio rhwng staff yn dangos tystiolaeth o roi hyfforddiant ar waith. Gweithio fel tîm mewn tystiolaeth. Gofal cyffyrddol priodol yn amlwg ac wedi ei deilwra'n unigol.	mae staff yn hyrwyddo llesiant a diogelu ac yn gallu: • adnabod arwyddion a symptomau o gam-drin • gweithio yn unol â pholisi diogelu'r lleoliad • deall iechyd a diogelwch • rhoi cymorth cyntaf • cynnwys ymyriad corfforol • nodi risgiau i bobl sy'n agored i niwed Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae staff yn: • gwybod a deall anghenion a galluoedd unigol pobl a gallu eu diwallu • darparu amgylchedd gofalgarg • darparu gofal ymatebol • hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth • ystyried sut mae'r holl anghenion iaith a chyfathrebu'n cael eu diwallu a sicrhau bod 'cynnig gweithredol'* o'r iaith Gymraeg wedi bod • hyrwyddo llesiant pobl, er enghraifft sut y maent yn darparu cyfleoedd addas ar gyfer anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol, addysg a hamdden • trin pobl ag urddas a pharch • sicrhau bod preifatrwydd pobl yn cael ei barchu
----------------------	--	---	--

			• darparu ar gyfer pobl i ddefnyddio a chael profiad o'r iaith Gymraeg • darparu gofal mewn iaith heblaw am Saesneg • dangos bod camau gweithredu a gymerwyd pan fo pobl yn gofidio yn addas
Canlyniadau Arweinyddiaeth a Rheolaeth	Rhai enghreifftiau o'r hyn a olygir gan 'da'	Yr hyn y dylai arolygwyr ddisgwyl ei ganfod lle dyfarnir bod arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda	Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr:
Rydw i'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael i mi. Rydw i'n gallu cael mynediad at wybodaeth pan fo angen, i'm helpu i reoli a gwella fy llesiant. Rydw i'n derbyn gofal o ansawdd uchel gan wasanaeth sydd â disgwyliadau uchel ohono ei hun, ac sydd wedi ymrwymo i sicrhwydd ansawdd a gwelliant parhaus. Rydw i'n elwa ar ofal sy'n ymrwymedig i arloesedd ac sy'n cael ei lywio gan arfer	Mae systemau cadarn a thryloyw ar waith i asesu ansawdd y gwasanaeth mewn perthynas â chanlyniadau i bobl, sy'n cynnwys adborth gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u cynrychiolwyr. Mae anghenion pobl sy'n byw yn y cartref yn gydnaws. Mae gweledigaeth a diben y gwasanaeth yn glir. Mae tystiolaeth o ysgogi gwelliannau parhaus a pharodrwydd i ddysgu oddi wrth arfer gorau, cwynion, digwyddiadau, ac adborth gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae yna dystiolaeth bod pobl sy'n byw, gweithio neu'n ymweld â'r cartref yn gwybod sut i godi pryderon, yn cael eu cefnogi i wneud hynny, a bod y rhain yn cael sylw. Mae pobl yn ymwybodol o linellau atebolrwydd ac arweinyddiaeth, ac mae'r rheolwr cofrestredig yn amlwg, yn hawdd mynd ato, ac yn ymateb i bryderon.	Mae staff wedi derbyn proses sefydlu drylwyr sy'n eu darparu gyda'r ddealltwriaeth a'r hyder sydd eu hangen i gyflawni eu rôl a'u cyfrifoldebau'n effeithiol. Mae gan y gwasanaeth ddull rhagweithiol i ddysgu a datblygiad staff ac mae'n sicrhau bod hyfforddiant yn berthnasol i anghenion unigol y bobl y mae'n gofalu amdanynt a'i fod yn unol â'r datganiad o ddiben. Mae cymorth yn canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd i unigolion i ymgysylltu â gweithgarwch a pherthnasau ystyrlon. Mae cynlluniau gofal wedi cael eu dylunio i alluogi pobl ag anghenion cyfathrebu i gymryd rhan a theimlo ymdeimlad o berchenogaeth yn eu cynlluniau gofal. Mae arweinwyr a rheolwyr yn mabwysiadu dull amlasiantaeth, sy'n cynnwys staff a chynrychiolwyr mewn adolygiadau ac wrth wneud penderfyniadau	• yn cydymffurfio â phob rheoliad a gweithdrefn ofynnol • yn cael datganiad o ddiben eglur a chynhwysfawr sy'n darparu llun cywir o'r lleoliad ac yn cynnwys eu safle ynghylch "cynnig gweithredol" mewn perthynas â'r iaith Gymraeg ac eiriolaeth • yn cyfathrebu eu gweledigaeth ar gyfer y lleoliad yn dda ac yn chydweithio ag eraill er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i bobl • yn cadw staff yn hysbys ynghylch datblygiadau • yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch • yn creu ethos cadarnhaol lle mae pobl a staff yn teimlo wedi'u gwerthfawrogi • yn gosod disgwyliadau uchelgeisiol • yn datblygu teimlad o fwriad sy'n hyrwyddo ac yn cynnal gwelliannau

gorau. Rydw i'n gallu mynegi fy mhryderon. Rydw i'n gallu cyfrannu at ddatblygiad a gwelliant y gwasanaeth. Rydw i'n elwa ar wasanaeth effeithlon lle manteisir i'r eithaf ar yr adnoddau. Rwy'n buddio o wasanaeth lle mae llesiant staff yn cael blaenoriaeth ac mae staff yn cael eu harwain, eu cefnogi a'u hyfforddi'n dda.	Mae arweinwyr a rheolwyr yn dangos eu bod yn gweithredu'n gyson gyda diwydrwydd a gofal, eu bod yn gallu dirprwyo cyfrifoldebau mewn modd eglur, a bod ganddynt systemau gweinyddol effeithiol. Mae staff yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, maen nhw'n derbyn arweiniad clir, a datblygir eu potensial. Mae darparwyr yn recriwtio, sefydlu, cefnogi, hyfforddi ac archwilio cefndir staff mewn ffordd sy'n gwella canlyniadau i bobl.	am lesiant pobl. Mae'r adolygiad ansawdd gofal yn cael ei osod mewn cynlluniau strategol a gweithredol ac yn tynnu ar weithdrefnau sicrwydd ansawdd rheolaidd.	- yn gosod amcanion a pholisïau eglur sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl sy'n cael eu deall a'u gweithredu gan bob aelod o staff Effeithiolrwydd yr adolygiad ansawdd gofal a chynllunio ar gyfer gyrru gwelliannau Dylai arolygwyr ystyried a yw proses adolygu ansawdd gofal y lleoliad yn: - cael ei osod mewn cynlluniau strategol a gweithredol ac yn tynnu ar weithdrefnau sicrwydd ansawdd rheolaidd. - cynnwys yr holl staff wrth asesu canlyniadau a'u perfformiad eu hunain, megis synfyfrio ar yr hyn y maent yn ei wneud yn ddyddiol - ystyried barn pobl, staff, rhieni (lle bo'n briodol) ac awdurdodau/comisiynwyr lleoli ac yn cynhyrchu adroddiad sy'n cael ei rannu gan bob cyfrannwr - edrych ar adolygiadau, cyngor ac adborth o weithwyr proffesiynol ac asiantaethau allanol - monitro ac arfarnu canlyniadau ar gyfer pobl - arwain at gynlluniau datblygiad/strategaethau sy'n cael eu monitro yn ôl targedau a meini prawf llwyddiant eglur - dangos bod arferion yn seiliedig ar yr ymchwil fwyaf diweddar ac yn cael eu cymhwyso yng ngwaith dydd i ddydd
---	---	--	--

			• rhoi blaenoriaeth i faterion maent am eu gwella • ystyried a yw pryderon/cwynion wedi cael sylw priodol ac yn ystyried sut i weithredu unrhyw ddysgu/gwelliannau angenrheidiol o'r rhain. Effeithiolrwydd rheoli staff ac adnoddau Dylai arolygwyr werthuso sut mae arweinwyr a rheolwyr yn: • dilyn prosesau recriwtio sy'n ddiogel, yn gadarn ac yn amserol • diffinio rolau a chyfrifoldebau • cael system effeithiol o oruchwyllo ac arfarnu staff sy'n arwain at dargedau a gytunwyd arnynt • sicrhau bod digon o staff sydd â chymwysterau, hyfforddiant a phrofiad perhthnasol a phriodol o weithio gyda phobl • sicrhau bod staff yn deall ac yn gwireddu eu rolau mewn perthynas ag amcanion, cynlluniau a chyfrifoldebau strategol y lleoliad • rheoli eu hamser eu hunain a blaenoriaethu gweithgareddau'n ymatebol • cytuno ar dargedau heriol a realistig ar eu cyfer eu hunain ac ar gyfer pobl eraill, ac yn cyrraedd y targedau hynny • dod i delerau a chydweithio'n dda gyda staff ac asiantaethau allanol
--	--	--	--

			• sicrhau bod digon o staff a'u bod yn cael eu dosbarthu'n briodol • datblygu cynlluniau staffio wrth gefn • cael golwg glir ar y ddarpariaeth gwasanaeth • cefnogi ymgysylltiad gweithredol yr holl staff wrth gynyddu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau proffesiynol, gan gynnwys cymryd rhan mewn profiadau dysgu proffesiynol ar gyfer y lleoliad cyfan Effeithiolrwydd partneriaethau Dylai arolygwyr ystyried a yw'r gwasanaeth yn glir ynglŷn â'i rôl a'i gyfrifoldeb am sefydlu ymddiriedaeth a chyfathrebiad clir rhwng partneriaid. Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r lleoliad: • yn gweithio gyda staff a chynrychiolwyr i wella gofal a llesiant pobl • yn gwneud eraill yn rhan o adolygiadau ac yn gwneud penderfyniadau am lesiant pobl • yn asesu effaith partneriaid, e.e. yr awdurdod lleol, byrddau iechyd lleol, y gymuned, asiantaethau eiriolaeth, darparwyr hyfforddiant, • yr heddlu a sefydliadau gwirfoddol
--	--	--	--

Canlyniadau Yr Amgylchedd	Rhai enghreifftiau o'r hyn a olygir gan dda	Yr hyn y dylai arolygwyr ddisgwyl ei ganfod lle y dyfarnir bod yr amgylchedd yn dda	Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau:
Rydw i'n byw mewn llety sy'n bodloni fy anghenion ac yn rhoi cymorth imi fanteisio i'r eithaf ar fy annibyniaeth a chyflawni teimlad o lesiant.	Mae pobl yn teimlo'n ysbrydoledig a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu bod yn derbyn gofal mewn amgylchedd cyfforddus, glân a chartrefol sydd wedi'i bersonoli. Gall pobl wneud pethau drostynt eu hunain oherwydd bod y cynllun a'r cyfleusterau'n hyrwyddo hygrychedd. Mae anghenion unigol pobl yn cael eu rhagweld gan yr adeilad ac mae risgiau o dan reolaeth. Mae perthnasau pobl yn cael eu gwella gan amgylchedd sy'n annog pobl i gyfarfod naill ai'n gymunedol neu mewn preifat. Mae llesiant pobl yn cael ei gyfoethogi gan gael mynediad at le tu allan sy'n ddiogel, yn ddymunol ac yn ddiddorol ac sydd yn hawdd cael mynediad iddo. Mae pobl yn elwa ar ddefnyddio cyfleusterau ac offer modern ac arloesol, sy'n creu cyfleoedd ac yn cyfoethogi eu bywydau. Mae gan bobl ddylanwad ar y dewis o gyfleusterau a'r offer a ddarperir i'w cefnogi. Mae pobl yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel a chynnes sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r angen am breifatrwydd a chyfrinachedd yn cael ei ragweld a'i barchu.	Naws: Mae'r awyrgylch yn olau, yn lân, yn gynnes, ac yn codi'r ysbryd. Mae pobl yn ymateb yn gadarnhaol i bethau yn yr amgylchedd, e.e. trugareddau personol, ffotograffau. Mae pobl yn gallu mynd i fan tawel ac ymlacio pan fydd angen hynny arnynt. Mae'r seiniau a'r lliw yn ysgogol ac yn gysurlon. Ymgysylltu a pherthnasau: Mae pobl yn cael cyfleoedd i fwynhau ymgysylltiad a chyfathrebu o ansawdd da mewn niferoedd bach a mawr, oherwydd bod y trefniadau eistedd mewn ardaloedd cymunedol yn amrywiol. Rhyngweithio rhwng staff: Mae cynllun yr adeilad yn hwyluso cysylltiadau naturiol rhwng y staff a'r preswylwyr.	archwilio diogelwch y safle: • gofelir am y bobl mewn amgylchedd diogel, glân a sicr • mae unrhyw risgiau diangen i bobl wedi cael eu nodi a chyhyd ag y bo modd eu gwaredu. addasrwydd yr adeilad: • mae'r safle'n groesawgar, yn gyfforddus, yn lân, yn gartrefol, ac wedi'i bersonoli • mae digon o le a chyfleusterau mewnol ac allanol i ddiwallu anghenion y bobl • mae digon o le ar gyfer cyfarfodydd preifat pan fydd angen • mae'r safle'n cael ei gynnal a'i gadw a'i addurno'n dda. ansawdd adnoddau ac offer: • mae gan bobl fynediad at ddodrefn, offer a deunyddiau sy'n lân ac yn briodol ac yn addas ar gyfer eu hanghenion • mae dyluniad a chyflwr adnoddau'n addas, ac maent yn cael eu cynnal yn dda er mwyn cydymffurfio â'r safonau diogelwch perthnasol.

Mae'r themâu hyn wedi'u halinio'n agos â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r [Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol](#), sy'n gosod disgwyliad arnom i asesu'r effaith mae gwasanaethau'n cael ar "lesiant".

* Un o egwyddorion allweddol 'Mwy na Geiriau' yw'r 'Cynnig Gweithredol'. Yn syml, mae 'cynnig gweithredol' yn golygu darparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb orfod gofyn amdano. Mae'n golygu creu newid yn niwylliant sy'n tynnu'r cyfrifoldeb i ffwrdd o'r defnyddiwr gwasanaeth ac yn gosod y cyfrifoldeb ar ddarparwyr gwasanaeth. Gwella ansawdd y gofal – mae'n bwysig i adnabod y cysyniad o anghenion iaith. Er bod yr iaith Gymraeg yn elfen hanfodol yng ngofal a chefnogaeth sawl siaradwr Cymraeg, ar gyfer rhai grwpiau blaenoriaeth dylai'r iaith Gymraeg gael ei gweld fel elfen hyd yn oed yn fwy sylfaenol ar gyfer darpariaeth gwasanaeth. Mae plant a phobl ifanc yn cael eu diffinio fel grŵp blaenoriaeth.

FFYNONELLAU TYSTIOLAETH POSIB

Lles

- Siarad â phobl sy'n byw yn y cartref a'u cynrychiolwyr
- Arsylwadau SOFI
- Siarad â staff i arsylwi ar eu rhyngweithio â phobl. Sut mae pobl yn rhoi cymorth i bobl mae eu hymddygiad yn heriol, er enghraifft pobl sydd â dementia? Ydyn nhw'n arfer gweithredoedd cadarnhaol wrth ymdrin â sefyllfaoedd anodd?
- Casglu gwybodaeth gan weithwyr proffesiynol eraill
- Dogfennau gwasanaeth gofal
- Ystyried sut mae pobl yn cael eu gwrandio arnynt, yn cymryd rhan, yn derbyn dewis ac yn cael eu hannog i fynegi eu hunain a.y.b.

Ansawdd gofal a chymorth

- Siarad â phobl sy'n byw yn y cartref, eu cynrychiolwyr, gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld, asiantaethau allanol
- SOFI
- Casglu tystiolaeth o berthnasau a gweithwyr proffesiynol eraill
- Siarad â staff
- Dogfennau gwasanaeth gofal
- Ystyried sut mae anghenion iaith/cyfathrebu'n cael eu diwallu. Tystiolaeth fod y cynnig gweithredol* yn cael ei ddarparu
- Ystyried sut mae egwyddorion hawliau dynol yn cael eu hamlygu a'u gweithredu o fewn y cartref.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- Gwirio gofynion cofrestrïad a hysbysiadau am ddamweiniau/digwyddiadau. Adolygu dulliau diogelu unrhyw ddigwyddiadau a chymau gweithredu sydd eu hangen/wedi eu cymryd. Adolygu a yw hysbysiadau statudol yn cael eu cyflwyno yn ôl yr angen.
- Siarad â staff
- Strwythurau staffio gan gynnwys cofnod datblygu sgiliau sy'n ystyried sgiliau iaith Gymraeg staff
- Tystiolaeth o hyfforddiant sy'n benodol i'r gwasanaeth/hyfforddiant gorfodol, e.e. codi a chario/ymdrin â bwyd/diogelu/cymorth cyntaf
- Mae anghenion yr iaith Gymraeg yn cael eu hadolygu fel rhan o'r adolygiad ansawdd gofal ac yn derbyn sylwadau yn yr adroddiad
- Trafodaeth neu dystiolaeth ysgrifenedig ynghylch cyflenwad rheolaeth ar yr adegau lle mae'r rheolwr cofrestredig i fwrdd o'r cartref

Yr Amgylchedd

Casglu adborth:

- Siarad â phobl sy'n byw yn y cartref a'u cynrychiolwyr i gael eu barn ar sut mae cynllun y cartref yn bodloni eu hanghenion / yn effeithio ar eu bywydau o ddydd i ddydd
- Siarad â staff, trafod eu meddyliau â nhw am y lleoliad, a yw'n addas ar gyfer y gofal, y driniaeth a'r gefnogaeth a ddarperir? Oes unrhyw newidiadau y gellid eu gwneud i wella bywydau pobl o ddydd i ddydd?

Arsylwi:

- Edrych o gwmpas ac ystyried sut mae'r cynllun, mynediad, dyluniad, arwyddion, addasiadau yn ystyried anghenion a dibyniaeth pobl sy'n byw yno, yn benodol ar gyfer y rheiny â dementia, anabledd corfforol, amhariad synhwyraidd, yn seiliedig ar ganllawiau ac ymchwil gyfredol
- Darparu arwyddion iaith Gymraeg.

Dogfennau:

Ystyried sut mae polisïau a gweithdrefnau yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol ac yn cefnogi a chyfoethogi llesiant pobl

- Mae cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu a'u gweithredu arnynt yn rheolaidd
- Tystiolaeth o hyfforddiant gorfodol
- Asesiadau risg cydnawsedd
- Sgôr hylendid bwyd
- Gwrio gofynion cofrestrïad a hysbysiadau am ddamweiniau/digwyddiadau.
- Adolygu dulliau diogelu unrhyw ddigwyddiadau a chatau gweithredu sydd eu hangen/wedi eu cymryd
- Adolygu a yw hysbysiadau statudol yn cael eu cyflwyno yn ôl yr angen
- Strwythurau staffio gan gynnwys cofnod datblygu sgiliau sy'n ystyried sgiliau iaith Gymraeg staff
- Lleihad mewn cwmpïadau
- Cofnodion meddyginiaeth
- Trefniadau eiriolaeth – a oes unrhyw rai/pa mor annibynnol yw'r rhain?
- Ystyried sut mae anghenion iaith/cyfathrebu'n cael eu diwallu
- Tystiolaeth fod y cynnig gweithredol yn cael ei ddarparu (dolen i strategaeth) (e.e. – Yr iaith Gymraeg, arwyddion)
- Ystyried sut mae egwyddorion hawliau dynol yn cael eu dangos a'u gweithredu o fewn y cartref
- Tystiolaeth o sut mae pobl yn cael eu darparu â dewis

- Asesiadau risg a chynlluniau gweithredu gofal iechyd/gofal y geg